Mark Jones
Pennaeth/Prif Swyddog Gweithredol
Coleg Gŵyr Abertawe
Heol Tycoch/Tycoch Road
Abertawe/Swansea
SA2 9EB

4 Awst/August 2022

Annwyl/Dear Mark Jones

**Ymweliad monitro prentisiaethau dysgu yn y gwaith**

Rhwng 21 a 23 Mehefin 2022, ymwelodd Mark Evans AEM a Sandra Barnard AEM â'r darparwr a'i is-gontractwyr i adolygu cyflwyno ei raglenni prentisiaeth yn ystod blwyddyn gyntaf eu contract gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r adborth o'r ymweliad hwn.

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn arwain partneriaeth o saith is-gontractwr i gyflwyno rhaglenni prentisiaeth ledled gorllewin, de, canolbarth a gogledd Cymru. Mae un is-gontractwr yn gweithredu o dan gontract dod i ben ar hyn o bryd. Mae'r darparwr yn cyflwyno hyfforddiant i 2,728 o ddysgwyr ar draws ystod eang o feysydd dysgu ar lefel 2, lefel 3, a phrentisiaethau uwch ar lefel 4 a 5 ar hyn o bryd. Mae'r darparwr hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â dau sefydliad addysg uwch ar gyfer cyflwyno prentisiaethau gradd mewn peirianneg meddalwedd a pheirianneg trydanol a mecanyddol.

Y meysydd dysgu mwyaf yw adeiladu, peirianneg a gofal cymdeithasol. Hefyd, mae'r darparwr yn cyflwyno prentisiaethau mewn peiriannau adeiladu ac mae wedi cyflwyno nifer o brentisiaethau digidol newydd i ddiwallu anghenion cyflogwyr.

Gofynnwyd i'r darparwr gan Lywodraeth Cymru i gefnogi 232 o ddysgwyr wedi'u dadleoli o ddau ddarparwr hyfforddiant na ddyfarnwyd contract prentisiaeth iddynt.

Mae'r darparwr yn gweithredu system ffi reoli a gymhwysir i'r holl is-gontractwyr. Mae'r ffi yn talu am gyfran o'r costau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â gweithredu a sicrhau ansawdd darpariaeth is-gontractwyr. Mae cyfradd y ffi yn ystyried lefel a chapasiti'r is-gontractwr, mae'n seiliedig ar risg ac yn ystyried perfformiad blaenorol yn ofalus. Mae'r ffi yn rhoi mynediad i is-gontractwyr at e-bortffolio o gynnydd dysgwyr ac adnodd monitro, ac ystod fuddiol o adnoddau eraill. Mae is-

gontractwyr yn cael mynediad i ystod eang o ddigwyddiadau datblygiad proffesiynol ac mae'n orfodol i fynychu rhai digwyddiadau. Mae'r digwyddiadau hyn yn rhoi cyfleoedd buddiol i'r darparwr rannu ystod eang o wybodaeth gydag is-gontractwyr, i ddiweddaru'u gwybodaeth a rhannu arfer orau.

Mae gan y darparwr nifer o grwpiau sefydledig sy'n adolygu agweddau allweddol ar y contract, gan gynnwys perfformiad ac ansawdd. Mae'r darparwr yn rhoi ffocws manwl ar gyfathrebu'n rheolaidd a chlir gyda'i is-gontractwyr. O ganlyniad, mae is-gontractwyr yn teimlo bod cefnogaeth dda iddynt, ac ymatebir yn gyflym i ymholiadau.

Dywed dysgwyr ar draws y rhan fwyaf o feysydd dysgu eu bod yn derbyn lefelau da o gymorth personol gan eu haseswyr. Mae'r rheiny a oedd yn gysylltiedig â rhaglenni yn ystod y pandemig yn gwerthfawrogi lefel y cymorth a gawsant gan aseswyr yn ystod y pandemig.

Wrth siarad am eu rhaglen hyfforddi, roedd dysgwyr yn eglur a hyderus wrth rannu'u profiadau diweddar a'r rheiny yn ystod y pandemig. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cydnabod buddion gweithgareddau dysgu ar-lein, yn enwedig yn ystod y pandemig. Mae'n well gan y rhan fwyaf o ddysgwyr cyfredol addysgu a dysgu wyneb yn wyneb, ac mae'r rheiny a oedd mewn hyfforddiant yn ystod y pandemig yn croesawu dychwelyd i'r gweithgareddau hyn yn bersonol. Mewn ychydig o achosion, dywedodd dysgwyr eu bod wedi cael anawsterau gyda dysgu ar-lein am ystod o resymau, gan gynnwys materion yn ymwneud â chysylltedd a'u medrau TG cyfyngedig. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae dysgwyr yn cydnabod y gellir cynnal adolygiadau cynnydd o bell, gyda'r fantais o arbed teithio ac amser.

Mae dysgwyr cyfredol yn gwneud cynnydd amlwg wrth ddatblygu'u gwybodaeth theori a medrau ymarferol. Mae'r rheiny a oedd yn hyfforddi yn ystod y pandemig yn cwblhau asesiadau a oedd yn anorffenedig. Mae gweithgareddau hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn gyffredinol erbyn hyn, a gall dysgwyr gael ystod eang o adnoddau a chymorth tiwtor. Mae dysgwyr yn croesawu'r cymorth y maen nhw'n ei gael gan eu tiwtoriaid, ac yn enwedig yr ymateb cyflym i unrhyw gwestiynau neu anawsterau a wynebant. Maent hefyd yn gwerthfawrogi'r ddynameg grŵp lle gallant weithio gyda'u cyfoedion a ffurfio rhwydweithiau cymorth cryf. Mae dysgwyr prentisiaeth lefel uwch yn ymgymryd â'u rhaglenni o bell yn aml, ac yn teimlo bod dysgu ar-lein yn fwy addas i'w cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

---

**Work-based learning apprenticeship monitoring visit**

Between 21 and 23 June 2022, Mark Evans HMI and Sandra Barnard HMI visited the provider and subcontractors to review the delivery of its apprenticeship programmes in the first year of their Welsh Government contract.  This letter provides a summary of feedback from this visit.

Gower College Swansea leads a partnership of seven subcontractors to deliver apprenticeship programmes across west, south, mid and north Wales. One subcontractor is currently operating under a rundown contract. The provider currently delivers training to 2,728 learners across a wide

range of learning areas at level 2, level 3, and higher apprenticeships at level 4 and 5. The provider also works in partnership with two higher education institutions for the delivery of degree apprenticeships in software engineering and electrical and mechanical engineering.

The largest learning areas are construction, engineering and social care. The provider also delivers apprenticeships in construction plant and has introduced several new digital apprenticeships to meet the needs of employers.

The provider was asked by the Welsh Government to support 232 displaced learners from two training providers who were not awarded an apprenticeship contract.

The provider operates a management fee system which is applied to all subcontractors. The fee covers a proportion of the direct costs associated with operating and quality assuring subcontractors' provision. The fee rate considers the level and capacity of the subcontractor, is risk-based and carefully considers past performance. The fee gives subcontractors access to an e-portfolio learner progress and monitoring resource and a beneficial range of other resources. Subcontractors have access to a wide range of professional development events with some events having mandatory attendance. These events give the provider beneficial opportunities to share a wide range of information with subcontractors, update their knowledge and share best practice.

The provider has a number of well-established groups that review key aspects of the contract including performance and quality. The provider places a keen focus on maintaining regular and clear communication with its subcontractors. As a result, subcontractors feel well supported, with enquiries being responded to quickly.

Learners across most learning areas state they receive good levels of personal support from their assessors. Those who were engaged in programmes during the pandemic appreciate the level of support they experienced from assessors during the pandemic.

When speaking about their training programme, learners were clear and confident when sharing their recent experiences and those during the pandemic. Most learners recognise the benefits of online learning activities, especially during the pandemic. Most current learners prefer face-to-face teaching and learning and those who were in-training during the pandemic welcome the return to these in-person activities. In a few cases, learners said they had experienced difficulties with online learning due to a range of reasons including connectivity issues and their limited IT skills. In most cases, learners recognise that progress reviews can be undertaken remotely, with the benefit of saving travel and time.

Current learners are making clear progress in developing their theory knowledge and practical skills. Those who were in-training during the pandemic are completing outstanding assessments. Off-the job training activities are now generally undertaken face-to-face where learners can access a wide range of resources and tutor support. Learners welcome the support they get from their tutors and especially the quick response to any questions or difficulties they encounter. They also value the group dynamic where they can work with their peers and form strong support networks.

Higher level apprenticeship learners often undertake their programmes remotely and feel that online learning suits their work-life balance better.

Yn gywir/Yours sincerely

**Jackie Gapper**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol
Assistant Director